

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.08.21 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Kevin Goodchild (Cadeirydd), Huw Davies, Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Jenny Warne, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths, Louise Hughes (Cyngorydd Sirol).
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14.07.21 fel rhai cywir.
Cynnig – Huw Davies **Eilio** – Geraint Edwards **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.07.21):**
 - a) **Parcio rhwystredig drwy'r pentref Llwyngwril** – adroddodd Kevin Goodchild a Keith Carroll eu bod wedi cael cyfarfod safle gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd i drafod problemau parcio ar y ffordd ac ar y palmentydd yn y pentref sydd bellach yn creu problemau diogelwch.
Swyddogion Cyngor Gwynedd yn awgrymu mae'r unig ffordd i ddatrys y problemau hyn yw i roi llinellau dwbl melyn ar y ffordd.
 - b) **Mesurau tawelu traffig yn Llwyngwril** – ateb wedi ei dderbyn gan Uwch Beiriannydd Traffic, Cyngor Gwynedd, yn cadarnhau eu bod yn trefnu i osod mesurydd traffic ar y ffordd i mewn i'r pentref Llwyngwril o'r ochr Gogleddol.
Hefyd fe fydd yn cysylltu gyda'r adrannau eraill mewn perthynas â phroblemau eraill yn y pentref.
 - c) **Hysbysfwrdd yn "lay-by" Pont y Cletwr, Llwyngwril** - adroddodd Huw Davies ei fod wedi cael cyfarfod safle hefo swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod ail osod yr hysbysfwrdd sydd wedi ei ddifrodi ar y safle yma.
Cyngor Gwynedd i gysylltu gyda'r Cyngor Cymuned gyda manylion pellach.
 - d) **Offer ymarfer corff i'r cae chwarae** - Prisiau wedi eu derbyn am offer o'r fath i'r cae chwarae yn Llwyngwril.
Penderfyniad → Cyngor Cymuned ddim mewn sefyllfa ariannol i allu prynu'r offer ymarfer corff yma, felly gadael i Glwb Cadw'n Heini'r pentref wybod y sefyllfa, ond bod croeso iddynt hwy sefydlu pwyllgor i godi arian.
 - e) **Gordyfiant ger croesfan trê - Llwybr y Perthi** - cadarnhad gan NWR fod y gordyfiant wedi cael ei dorri
 - f) **Llwybr y Crynwyr** - e-bost gan Mr Nick Ward wedi ei ddarllen a'i drafod ynglŷn â'r llwybr yma.
Penderfyniad → gadael i Mr Ward wybod fod y Cyngor Cymuned wedi ymrwymo i wneud cais i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r llwybr yma.
 - g) **Llwybr y Crynwyr** → Ffurflen gais "Cais am Orchymyn Diwygio" i'w hanfon i Gyngor Gwynedd gyda'r tystiolaeth a'r wybodaeth berthnasol.

5. **Gohebiaeth:**

- a) **Cyngor Gwynedd** - Rhaglen Waith Mis Awst wedi ei dderbyn.
- b) **Cyngor Gwynedd** - Cofrestr Etholwyr (01.07.21) wedi ei dderbyn.
- c) **Parc Cenedlaethol Eryri** - Dathliadau 70 Mlynedd → cynnig “Pecyn Plannu Coed” i’r Cyngor cymuned **Penderfyniad** → hysbysu’r Parc fod Cyngor Cymuned Llangelynnin am dderbyn y cynnig yma.

6. **Materion Cynllunio:** Dim ceisiadau.

7. **Adroddiad Ariannol:** Adolygiad ariannol wedi ei wneud.

Derbyniwyd Adroddiad Mis Gorffennol 2021 yn gywir.

Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Geraint Edwards **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

- a) Siec i dalu am hysbyseb yn Llygad y Dydd = £10.00
- b) Siec i dalu am oleuadau i’r Coed Nadolig = £91.14.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Louise Hughes ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- a) **Swydd Wag y Clerc** – 2 gais wedi eu derbyn am Swydd y Clerc
→ Anfon “disgrifiad swydd” iddynt a threfnu cyfweiliad iddynt hefo 3 aelod o’r cyngor cymuned.
- a) **Ceg yr afon Gwril** - Huw Davies wedi derbyn trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i alluogi’r Cyngor Cymuned drefnu i gael y gwaith ar geg yr afon wedi ei wneud
Penderfyniad → gofyn am bris i wneud y gwaith gan bedwar o fusnesau lleol
- b) **Y Ganolfan** – Pwyllgor Y Ganolfan wedi trefnu cyfarfod nos Fawrth nesaf - 17.08.21 - i ail agor Y Ganolfan.
- c) **Goleuadau y Goed Nadolig** - wedi eu derbyn !!
- d) **Cyngor Gwynedd** - biniau heb gael eu casglu ar Stryd y Felin, Llwyngwrl
Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt hwy drefnu casgliad.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 08.09.21 - am 7 o’r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**